# Pwyllgor Rheoli Datblygu

## 20 Gorffennaf 2022

Yn bresennol (yn bersonol)
Cynghorydd Steve Alderman, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd R Jordan, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd Mrs V Thomas, Cynghorydd Mrs M Wiggins, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams.

Yn bresennol (yn rhithiol)
Dr M Havard (Cadeirydd)
Cynghorydd Dr SL Hancock, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, a Dr RM Plummer

[Parc Llanion, Doc Penfro a Rhithiol 10.00am – 11.35am;
11.50am - 2.00pm]

**1. Ymddiheuriadau**
Doedd yna ddim ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. Datgelu buddiant**
**Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater (ion) y cyfeirir atyn nhw isod:**

| Cais a Chyfeirnod | Aelod(au)/Swyddog(ion) | Gweithred |
|---|---|---|
| *Cofnod 7 isod – datgeliad cyffredinol fel aelod o fwrdd CNC ac Ymddiriedolwr Plantlife* | Dr R Plummer | Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau a'r pleidleisio ar y ceisiadau hyn. |
| *Cofnod 7(f) isod* N*P/22/0104/FUL* Bragdy Milton, Milton | Cynghorydd V Thomas | Gadael y cyfarfod tra roedd y cais yn cael ei drafod. |

**3. Cofnodion**
Cafodd Cofnodion y cyfarfodydd gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2022 a 4 Gorffennaf 2022 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** bod cofnodion y cyfarfodydd gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2022 a 4 Gorffennaf 2022 yn gywir ac yn ddilys.

**4. Protocol Ymweliad Safle**

Nododd y Cadeirydd bod nifer o Aelodau wedi awgrymu y byddai yna rinwedd mewn llunio protocol ar gyfer yr angen am ymweliad safle, ac roedd hi felly wedi gofyn i swyddogion ddrafftio dogfen o'r fath a fyddai'n cael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod i'w gymeradwyo maes o law. Mynegodd rhai Aelodau y farn nad oedd angen protocol o'r fath ac y byddai hynny'n gallu arwain at yr Awdurdod i fod fwy yn nwylo swyddogion yn hytrach nag yn nwylo Aelodau; cafodd hyn ei gynnig a'i eilio. Roedd Aelodau eraill yn gweld rhinwedd yn yr awgrym am eu bod yn ymrwymo adnoddau'r Awdurdod o ran costau teithio ac amser swyddogion, ac y gallai protocol fod o gymorth i Aelodau gymryd y materion hyn i ystyriaeth wrth benderfynu trefnu ymweliad safle neu beidio.

**PENDERFYNWYD** na fyddai protocol yn cael ei ddrafftio ac y dylid cadw at y status quo.

**5. Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, wedi'i ddiwygio 16 Mehefin 2021, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud oni bai eu bod wedi siarad ar yr un cais cynt pan roddir tri munud iddyn nhw i gyflwyno gwybodaeth o'r newydd. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| **Rhif cyfeirnod** | **Cynnig** | **Siaradwr** |
|---|---|---|
| *NP/21/0577/FUL Cofnod 7(a) cyfeir* | *Datblygiad preswyl o 11 o dai deulawr (gan gynnwys 2 dŷ fforddiadwy) - tir ger Cefn Gallod, Tre-fin, Hwlffordd* | *Cyng Neil Prior – Cyngor Cymuned<br>Mr Paul Niedzwiedzki – gwrthwynebydd<br>Cyng Neil Prior – Cynghorydd Sir* |
| *NP/21/0643/FUL Cofnod 7(c) cyfeir* | *Codi crib y to 1.9m, copa gwydrog i dalcen gorllewinol y tŷ a balconi cilfachog ar lefel y trydydd llawr, ffenestri to, a gwaith cysylltiedig – Christkindl, Stryd Fawr, Saundersfoot* | *Mr Neil Bartholomew - Ymgeisydd<br>Mr P Baker* |

| | | |
|---|---|---|
| *NP/22/0104/FUL Cofnod 7(f) cyfeir* | *Newidiadau ac estyniadau i'r dafarn gan gynnwys darparu 3 uned gwely a brecwast, newidiadau mewnol i'r llety rheolwr ar y llawr cyntaf ac addasu'r storfa allanol bresennol yn weithdy cynnal a chadw beiciau – Bragdy Millton, Milton* | *Kathryn Perkins – ar ran yr ymgeisydd* |

**6. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, dyletswydd yr Awdurdod i gyflawni datblygiadau cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl.

**NODWYD**

**7. Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

(a)

| | |
|---|---|
| CYFEIRNOD: | NP/21/0577/FUL |
| YMGEISYDD: | Mr A Compton |
| CYNNIG: | Datblygiad preswyl o 11 o dai deulawr (gan gynnwys 2 dŷ fforddiadwy) |
| LLEOLIAD: | Tir ger Cefn Gallod, Tre-fin, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 5AP |

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais hwn wedi'i ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2022 pan benderfynwyd cymeradwyo'r cais. Ond roedd llythyr protocol cyn-weithredu yn ymwneud â Her Adolygiad Barnwrol posib yn y dyfodol gan Drydydd Parti wedi dod i law ac roedd hynny wedi gorfodi oedi cyn cyflwyno'r caniatâd.

Roedd y llythyr protocol cyn-weithredu yn gosod allan dwy sail yr her sydd wedi'u haralleirio fel a ganlyn.

**Sail 1:** Doedd yr Awdurdod ddim wedi rhoi sylw cywir i Bolisi 47 ac Atodiad 4 o'r CDLl 2. Yn benodol roedd CDLl 2 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad gael ei ganolbwyntio ar ffurf linellol ar hyd y ffin ddeheuol gan ddarparu llecyn glas i'r gogledd, pan, mewn gwirionedd, mae'r cais yn darparu ar gyfer 11 o anheddau, chwech wedi'u lleoli i'r gogledd o'r safle a phump i'r de.

**Sail 2:** Yr Awdurdod heb sicrhau darpariaeth tai fforddiadwy digonol.

Gofynnwyd am gyngor Cwnsler ynglŷn â'r mater ac roedd ymateb i'r llythyr protocol cyn-weithredu wedi'i anfon. Er ei gasgliadau nad oedd yr Awdurdod yn ystyried bod yna unrhyw rinwedd yn sail yr her, roedd yr ymateb cyn-gweithredu yn cydnabod bod y wybodaeth berthnasol i sail yr her wedi'i gyfleu ar lafar, ac nad oedd gan y Pwyllgor y fantais o ddeunydd ysgrifenedig yn ymwneud â'r materion hyn. O'r herwydd, o ystyried yr her a'r ffaith y cafwyd trafodaeth helaeth yn y Pwyllgor ar 9 Mawrth 2022 ynghylch rhinweddau'r cais, teimlai'r swyddogion y byddai'n ddoeth i'r cais gael ei gyfeirio nôl i'r Pwyllgor, ac i'r Pwyllgor gael y fantais o adroddiad diwygiedig yn esbonio'r cefndir, a'r wybodaeth amlinellol uchod yn ymwneud â dwy sail yr her oedd wedi'u rhoi gerbron.

Cynghorodd y Cyfreithiwr o ran cyflawnrwydd bod Adran 72 o'r Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ddiogelu neu hyrwyddo cymeriad a golwg Ardal Gadwraeth, a diogelu treftadaeth ddiwylliannol fel rhan o amcanion y Parc Cenedlaethol.

Y cyntaf o dri siaradwr oedd y Cynghorydd Neil Prior, a oedd yn siarad i gychwyn fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanrhian. Am ei fod wedi siarad pan gafodd y cais ei ystyried yn y lle cyntaf gan y Pwyllgor roedd ganddo dri munud i draddodi ei gyflwyniad. Cyfeiriodd at y drafodaeth yn y Pwyllgor blaenorol a arweiniodd at y cais yn cael ei gymeradwyo o drwch blewyn. Cynghorodd mai ef oedd wedi cyflwyno'r llythyr protocol cyn-gweithredu ac amlinellodd y prif seiliau fel sydd wedi'i osod allan uchod. Roedd y Cyngor Cymuned wedi gwrthwynebu'r cais ar y sail bod y cais yn groes i nifer o bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), ond roedd am ganolbwyntio'r diwrnod hwnnw ar y cyntaf o'r ddwy sail h.y. bod yr Awdurdod heb roi sylw dyladwy i Bolisi 47 ac Atodiad 4 o'r CDLl, a chyfeiriodd yn benodol at y gofynion oedd wedi'u gosod allan o dan HA10. Nododd bod yr ymateb i'r protocol cyn-weithredu wedi nodi mai'r rheswm dros amrywio oddi ar y gofynion hynny oedd oherwydd gofynion System Ddraenio Gynaliadwy (SDdG), ond gan ei bod hi'n fwriad lleoli pump o'r anheddau yn ne'r safle roedd yn amau'r rheswm hwn, ac o'r farn y dylai'r

datblygwr gadw at ofynion HA10. Cyfeiriodd hefyd at fater mynediad trwy Gefn Gallod a'r aflonyddu ar y preswylwyr presennol o ganlyniad i hyn. Doedd e ddim yn credu y dylai'r datblygwr gael caniatâd mynediad trwy Gefn Gallod, gwasgu annedd breifat ychwanegol ar y safle, gostwng y ddarpariaeth dai fforddiadwy a gwyro oddi ar y canllawiau sydd wedi'u gosod allan yn y CDLl. Doedd cymeradwyo'r cais ar y sail hon ddim yn cydymffurfio â pholisi cynllunio oedd wedi'i fabwysiadu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod cadarnhaodd y Cynghorydd Prior, ar ôl sgwrsio â phawb o blith preswylwyr Cefn Gallod, eu bod nhw'n pryderu ynghylch mynediad trwy eu hystâd yn hytrach na'u bod yn erbyn y datblygiad o dai/tai fforddiadwy fel y cyfryw. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc bod yr Awdurdod Priffyrdd yn fodlon o ran y cynnig i sicrhau mynediad trwy ystâd Cefn Gallod, er y byddai mynediad dros dro yn cael ei ddefnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu. Byddai defnydd parhaol o'r mynediad hwnnw yn golygu gwaredu'r clawdd a fyddai'n cael effaith ar dreftadaeth a gweledеdd.

Yr ail siaradwr oedd Mr Paul Niedzwiedzki a esboniodd ei fod yn byw yn agos i'r safle. Wrth gyfeirio at leoliad y datblygiad arfaethedig ar ochr ogleddol y safle, yn groes i'r CDLl, ac i ganiatáu SDdG a fyddai'n atal dŵr glaw rhag cyrraedd y system garthffosiaeth, awgrymodd bod yr hyn a oedd yn cael ei gynnig yn annigonol, am fod y llecyn ar gyfer SDdG yn rhy fach, yn sefyll ar graig anathraidd ac roedd ar lefel uwch na llawr gwaelod saith o'r 11 annedd a fwriadwyd. Nododd bod gan waith carthffosiaeth Tre-fin un o'r cyfraddau gorlifo gwaethaf yn ne orllewin Cymru gyda 209 o gyfnodau gorlifo yn 2021 yn para am gyfanswm o 1462 o oriau, ac roedd hyn wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2019. Nododd bod Dŵr Cymru/Welsh Water (DCWW) wedi cydnabod bod nifer y gollyngiadau yn rhy uchel, yn digwydd mewn tywydd stormus ac mewn tywydd sych, ac y gallai hyn fod yn ganlyniad cynnydd mewn poblogaeth yn y dalgylch neu ymdreiddiad dŵr daear. Fodd bynnag, byddai datblygu'r safle hwn yn cynyddu rhediad dŵr brwnt gan wneud y sefyllfa bresennol yn waeth. Roedd felly yn ystyried y cais yn groes i Bolisi 32 o ran draenio dŵr wyneb a Pholisi 29 dylunio cynaliadwy am nad oedd yn credu bod gan y Gwaith Trin Carthffosiaeth y gallu i ddelio â'r cynnydd mewn carthion. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod dywedodd Mr Niedzwiedzki bod yna bryderon yn lleol y gallai'r gorlifo arwain at lygru'r afon, ac o ganlyniad roedd adran Rheoli Llygredd Cyngor Sir Penfro (CSP) wedi dechrau cymryd samplau ond roedd hi'n rhy gynnar i ffurfio unrhyw gasgliadau o'r gwaith hwn ar hyn o bryd.

Gofynnodd  yr Aelodau i'r swyddog pa amodau oedd DRWW wedi gofyn amdanyn nhw ac fe'u cynghorwyd ei bod yn amod arferol na ddylai unrhyw ddŵr wyneb ddraenio i rwydwaith gwasanaeth cyhoeddus. Roedd peirianwyr draenio CSP wedi cynghori y byddai angen cymeradwyaeth

SDdG ond roedd hwn yn ganiatâd ar wahân. Ychwanegodd y swyddog pe na bai SDdG yn cymeradwyo, yn seiliedig ar y cynllun presennol, byddai unrhyw newidiadau i'r caniatâd cynllunio yn dod nôl gerbron y Pwyllgor.

Dychwelodd Cynghorydd Prior wedyn i siarad fel Cynghorydd Sir ac fe gyfeiriodd at fethiant yr Awdurdod i sicrhau tai fforddiadwy digonol trwy'r cais. Cyfeiriodd at yr heriau o ran ail-gartrefi ac eiddo hunanarlwyo, a chynigion Llywodraeth Cymru i ddelio â'r ffaith bod yna 5,500 o bobl ar restrau aros am dai. Cyfeiriodd at bolisïau'r CDLl a'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) oedd yn darparu tai fforddiadwy i ateb gofynion lleol ac roedd o'r farn nad oedd sylw priodol wedi'i roi i Bolisi 47. Holodd pam bod y polisi'n darparu'r ffigwr o 2.75 o anheddau fforddiadwy (25%) i'w talgrynnu i lawr yn hytrach nag i fyny, a hefyd cyfeiriodd at y CDLl yn nodi y dylid darparu tri eiddo fforddiadwy, p'un a oedd hyn yn gamgymeriad fel roedd wedi'i honni. Roedd y gostyngiad mewn niferoedd mae'n ymddangos oherwydd cost gosod ysgeintwyr, ond nododd bod hyn yn ofynnol ar gyfer pob adeiladu newydd nid dim ond anheddau fforddiadwy. Dywedodd ei fod yn parchu'r Parc Cenedlaethol a'i fod yn credu bod gan y gymuned pob hawl i ddisgwyl tri eiddo fforddiadwy. Roedd yn ystyried nad oedd lefel y ddarpariaeth yn y cais yn gywir a bod gan y Pwyllgor y cyfle i gywiro hyn.

Roedd un Aelod o'r farn y dylai'r polisi o ran talgrynnu ffigyrau i lawr o ran unedau fforddiadwy gael ei ail-ystyried, ond cydnabuwyd mai hwn oedd y polisi mewn grym ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd bod y cais gerbron y Pwyllgor er mwyn i'r Aelodau dderbyn adroddiad ysgrifenedig ynghylch y ffigwr tai fforddiadwy oedd ei angen yn ol y CDLl, ac esboniodd y Cyfarwyddwr yn fyr sut roedd y camgymeriad wedi digwydd. Ychwanegodd y Cyfreithiwr bod yr Awdurdod wedi derbyn cyngor Cwnsler yn dweud o wybod mai camgymeriad oedd gosod tair uned fforddiadwy ar y safle yn ôl gofynion y CDLl fe fyddai'r Awdurdod yn gweithredu'n anghyfreithlon o ofyn am dair uned yn lle dwy.

Er hynny, mynegwyd y farn y byddai'r safle yn un dymunol o'i osod ar y farchnad agored ac na fyddai'r datblygiad o fudd i'r gymuned leol; roedd yr Aelodau yn siomedig mai dim ond 2 x 1 fflatiau deulawr un ystafell wely oedd yn cael eu cynnig fel tai fforddiadwy.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd p'un a oedd gwerthusiad maes archeolegol wedi dod i law wrth Ymddiriedaeth Archeolegol Dyfed (YAD) gan ofyn am sicrwydd y bydd y clawdd yn cael ei ddiogelu. Cynghorodd y swyddog bod ymateb wedi ei dderbyn wrth YAD a phetai'r cais yn cael ei gymeradwyo byddai Cytundeb S106 yn diogelu cynnal a chadw'r clawdd.

Wrth droi at y mynediad roedd rhai Aelodau yn dal yn bryderus pe bai yna gymeradwyo y gallai fod yna broblemau o ganlyniad i gerbydau yn parcio

ar y ffordd fynediad, a byddai ansawdd bywyd y rhai hynny sy'n byw yng Nghefn Gallod yn cael ei effeithio'n andwyol. Roedden nhw'n credu y dylai'r mynediad dros dro amgen gael ei ddefnyddio hyd yn oed os byddai hyn yn golygu colli rhan o'r clawdd. Cafodd cynnig i wrthod y cais ei roi gerbron ac fe'i heiliwyd a'r rhesymau a roddwyd oedd amhriodoldeb y mynediad a'r effaith andwyol ar ansawdd bywyd preswylwyr Cefn Gallod. Cynghorodd y Cyfarwyddwr pe bai ym mwriad yr Aelodau i wrthod y cais, byddai hi'n cyflwyno Gweithdrefn Oedi'r Awdurdod, ond pan roddwyd y mater i bleidlais, ni chafodd y cynnig ei gario, a hynny ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd. Cafodd y cynnig gwreiddiol y dylai'r cais gael ei ddirprwyo i swyddogion i'w gymeradwyo, yn amodol ar gyflwyno dadl gyfreithiol ac amodau fel roedden nhw wedi'u gosod allan yn yr adroddiad; cafodd hwn ei gario eto ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd.

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r cais i swyddogion i gymeradwyo ar yr amod y cyflwynir cytundeb cyfreithiol cyflawn yn sicrhau darparu tai fforddiadwy am byth a chytundeb o ran cyfrifoldeb dros dirweddu a chloddiau am byth gydag amodau ychwanegol o ran amseriad y datblygiad; yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo; cynllun tirweddu, llain ymwybyddiaeth wrth fynedfa'r datblygiad; mynediad, parcio a throi; draenio dŵr wyneb; cynllun rheoli adeiladu; gorffeniadau allanol a lliwiau; gwaredu hawliau datblygu a ganiatawyd; lefelau lloriau; goleuo; ecoleg; oriau adeiladu, llwch; a thanau.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.35am a 11.50am]

(b) CYFEIRNOD: NP/21/0614/FUL
YMGEISYDD: Mr S Callow
CYNNIG: Rhannu'r llain bresennol yn ddau i adeiladu tŷ newydd 1 a ½ llawr 4 ystafell wely, a gwaith allanol cysylltiedig a rhannu mynedfa i gerbydau
LLEOLIAD: Oratava, Maenorbŷr, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro, SA70 7TE

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais hwn wedi'i ohirio yn y cyfarfod Pwyllgor blaenorol er mwyn trefnu archwiliad safle, a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2022 (Cofnod 3 cyfeir). Fodd bynnag, daeth i'r amlwg nad oedd rhai o'r partïon oedd â diddordeb wedi'u hysbysu o'r achlysur er iddo gael ei e-bostio o'r Awdurdod, y byddai'r cais yn cael ei ystyried yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw, ac, felly, er tegwch, cynigiwyd gohirio ystyriaeth o'r cais tan y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNIAD: Gohirio'r cais tan y cyfarfod nesaf.**

(c) CYFEIRNOD: NP/21/0643/FUL
YMGEISYDD: Mr N Bartholomew
CYNNIG: Codi crib y to 1.9m, copa gwydrog i dalcen gorllewinol y tŷ a balconi cilfachog ar lefel y trydydd llawr, ffenestri to, a gwaith cysylltiedig
LLEOLIAD: Christkindl, Stryd Fawr, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9EJ

Adroddwyd bod yr eiddo masnachol/preswyl hwn wedi'i leoli yng nghanol Saundersfoot a'i fod yn chwennych estyniad i'r fflat llawr cyntaf presennol i ardal y to gwastad a fyddai'n golygu codi uchder crib yr eiddo 1.9m. Roedd y cynnig hefyd yn cynnwys creu copa gwydrog i dalcen gorllewinol y tŷ gyda balconi cilfachog ar lefel y trydydd llawr, a gosod ffenestri to ar y trychiad blaen a goleuadau to ar y trychiad cefn.

Tra ystyrid bod yr addasiadau mewn egwyddor yn gweddu'n dda gyda dyluniad, ffurf a chymeriad y prif adeilad, lle'r oedd estyniadau yn dal yn atebol o ran graddfa a ffurf i'r eiddo presennol, codwyd pryderon gan y Swyddog Cadwraeth Adeiladau ynghylch effaith dyluniad y cynnig ar gymeriad a golwg yr ardal, ac nad oedd yn diogelu na hyrwyddo Ardal Gadwraeth Saundersfoot. Yr argymhelliad felly oedd gwrthod. Cynghorodd y swyddogion eu bod wedi trafod lleihau'r gwydro a defnyddio mwy o ddefnyddiau enciliol ar y talcen gyda'r asiant, ond ni dderbyniwyd diwygiadau i'r cais.

Y cyntaf o ddau siaradwr oedd Neil Bartholomew, yr ymgeisydd. Esboniodd ei fod wedi prynu'r eiddo ddeunaw mis ynghynt ac wedi cyflwyno'r cais ymron flwyddyn yn ôl gan ddefnyddio'r cynlluniau oedd wedi derbyn cyngor ffafriol pan gyflwynwyd ymholiad cyn-gyflwyno rhai blynyddoedd ynghynt. Roedd y cynlluniau wedi derbyn cefnogaeth y Cyngor Cymuned, cymdogion ac eraill yn y pentref; dim ond y Swyddog Cadwraeth Adeiladau oedd wedi gwrthwynebu, yn groes i'r cyngor a dderbyniwyd adeg yr ymholiad cyn-gyflwyno. Dywedodd Mr Bartholomew fod y swyddog wedi awgrymu wrth ei asiant y gallai'r eiddo gynnwys cladin carreg tebyg i Bedoes Court gerllaw, ond roedd yr adeilad hwn yn cael ei ystyried yn gryn ddolur i'r llygad yn y pentref. Roedd hefyd wedi codi pryderon ynghylch y ffenestri to er bod ffenestri o'r fath wedi eu caniatáu yn yr hen Swyddfa Lo gerllaw. Credai Mr Bartholomew bod yr adeilad ar hyn o bryd yn edrych yn anniben oherwydd y to gwastad, ac y byddai'r cynigion yn welliant gweledol sylweddol yn y pentref, yn cydweddu â'r trychiadau gwydrog niferus oedd i'w gweld gerllaw. Am y byddai'r diwygiadau a gynigiwyd gan y swyddogion yn golygu cost ychwanegol roedd wedi hysbysu ei asiant ei fod yn dymuno i'r cais gael ei benderfynu fel yr oedd yn y cyn-gyflwyno gwreiddiol. Fodd bynnag, mynegodd ei siom ynghylch y modd roedd y mater wedi'i drin, nad oedd ef ei hun wedi'i wahodd i'r cyfarfod safle a nododd, o ganlyniad i'r hir

amser roedd wedi'i gymryd i benderfynu, roedd prisiau deunyddiau wedi codi'n sylweddol. Gofynnodd i'r Aelodau i edrych yn ffafriol ar y cais oedd ger eu bron.

Gofynnwyd i'r swyddogion gynnig sylwadau ar rai o'r pwyntiau wnaed gan Mr Bartholomew, a nodwyd o ran y cyngor cyn-gyflwyno fod hwnnw wedi'i roi yn 2016, ac roedd cyngor o'r fath dim ond yn berthnasol am chwe mis. Ar y pryd doedd y Swyddog Cadwraeth Adeiladau ddim wedi ymweld â'r safle, ac o ystyried yr adeilad oddi fewn i gyd-destun yr Ardal Gadwraeth, y farn nawr oedd y byddai'r cynigion yn achosi effaith andwyol. Ond roedd awgrymiadau wedi'u gwneud a fyddai'n gwneud y cynigion yn dderbyniol. Nodwyd hefyd mai prif gyswllt y swyddogion oedd yr asiant yn hytrach na'r ymgeisydd.

Yr ail siaradwr oedd y cyn-Gynghorydd Sir, Phil Baker, a oedd yn cefnogi'r cais. Nododd nad oedd yr argymhelliad i wrthod ar y seiliau arferol am fod materion hyrwyddo ecolegol, mwynder a phreifatrwydd yn dderbyniol; doedd dim gwrthwynebiad gan yr Awdurdod Priffyrdd a doedd dim pryderon o ran llifogydd. Roedd yr egwyddor o ddatblygu'n dderbyniol ac roedd y cais wedi derbyn cefnogaeth y Cyngor Cymuned. Roedd y gwrthodiad oherwydd bod yr adeilad yn cael ei ystyried yn annerbyniol o ran ei gymeriad. Nododd Mr Baker mai yn 2011 y crëwyd yr Ardal Gadwraeth ac roedd yn cynnwys amrywiaeth o arddulliau a dyluniadau; nododd fod gan rai toeon fylchfuriau, toeon ar ffurf tonnau neu dalcendoeon, ond roedd gan y mwyafrif dalcenni traddodiadol. Roedd y cynnig o dan ystyriaeth yn adlewyrchu'r datblygiad yn yr hen gapel a'r Mans ar draws y ffordd ac roedd yn unol â'r cyngor a dderbyniwyd yn 2015/16 pan gyflwynwyd y cais cyn-ymgeisio nad oedd yn rhagweld unrhyw effaith andwyol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Roedd y fath newid o ran cyngor yn anodd ei dderbyn yn arbennig o ystyried yr holl ddatblygiadau newydd yn y pentref yn y blynyddoedd diwethaf, ac roedd golwg yr Ardal Gadwraeth wedi newid yn sylweddol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu.

Pan ofynnwyd am debygrwydd y cynigion i'r datblygiad gyferbyn y cyfeiriwyd ato, cynghorodd y swyddogion bod Christkindl yn llawer mwy amlwg yn yr Ardal Gadwraeth.

Roedd yr Aelodau o'r farn nad oedd yna fawr ddim gwahaniaeth rhwng dyheadau'r ymgeisydd a safbwyntiau'r swyddogion, ac fe ofynnon nhw p'un a ellid cynnal trafodaethau pellach i ddatrys y materion hyn. Fe'u hatgoffwyd bod yr ymgeisydd wedi gwrthod cynnig diwygiadau pellach, a'i fod wedi gofyn am benderfynu'r cais fel yr oedd wedi'i gyflwyno. O'i wrthod gellid cyflwyno cais pellach yn ddi-dâl o fewn 12 mis a byddai ganddyn nhw hefyd y cyfle i apelio.

Roedd yr Aelodau yn dal i bryderu ynghylch maint y gwydro a gynigid, yn arbennig am fod y trychiad yn wynebu'r de. Cafodd cynnig i wrthod y cais ei roi gerbron ac fe gafodd ei eilio gyda'r gobaith a'r disgwyl y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal er mwyn llunio cynnig a fyddai'n dderbyniol yn y dyfodol.

**PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais am y rheswm canlynol:**

1. **Mae'r cynnig yn groes i batrwm sefydledig yr anheddiad, heb fod o'r un cymeriad â'r datblygiad presennol a'r manylion yn amhriodol. Canlyniad hyn yw effeithiau negyddol ar gymeriad a golwg Ardal Gadwraeth Saundersfoot. Mae hefyd yn niweidiol i rinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Byddai'r cynnig felly yn groes i Bolisïau 1, 8, 14, 29 a 30 o'r Cynllun Datblygu Lleol.**

[Cyflwynodd Dr R Plummer ei hymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yn y fan hon.]

| | | |
|---|---|---|
| (d) | CYFEIRNOD: | NP/21/0673/S73 |
| | YMGEISYDD: | Miss E Hodges |
| | CYNNIG: | Amrywio amodau rhif 2 a 4 o NP/17/0315/FUL – Diwygio'r cynlluniau a gymeradwywyd a'r droedffordd a'r mesurau arafu traffig |
| | LLEOLIAD: | Tir oddi ar Heol Walton, Aberllydan, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 3JX |

Atgoffwyd yr Aelodau bod y safle hwn yn cynnwys darn o gae amaethyddol oedd mewn defnydd yn union i'r de o Driftwood Close yn Aberllydan. Roedd y safle hwn wedi'i ddynodi yn y Cynllun Datblygu Lleol ac roedd caniatâd ar gyfer datblygiad preswyl yn cynnwys 18 o anheddau ynghyd â gwaith cysylltiol wedi'i gymeradwyo o dan NP/17/0315/FUL. Roedd y gwaith o ddatblygu'r safle ar y gweill ac roedd yna breswylwyr eisoes yn nifer o'r tai.

Gofynnwyd am ganiatâd i amrywio dau amod o'r caniatâd oedd wedi'i gymeradwyo o ran darparu llwybr troed a mesurau arafu trafnidiaeth am fod yr ymgeisydd wedi dod ar draws trafferth ynghylch perchnogaeth tir, ac nid oedd yn medru cwblhau y mesurau a gynigiwyd yn wreiddiol. Roedd yr ymgeisydd wedi gweithio gyda'r Awdurdod Priffyrdd i greu'r cynnig oedd gerbron y Pwyllgor, ac nid oedd yr Awdurdod Priffyrdd wedi gwrthwynebu, ond roedd yr Awdurdod wedi derbyn llawer o wrthwynebiadau, gan gynnwys lluniau, wrth y gymuned a'r Cyngor Cymuned, yn ymwneud â diogelwch priffordd a cherddwyr, ac fe'u hysbyswyd o ddamwain gerbydau yn ddiweddar ar waelod y feidr.

Cynghorodd y Cadeirydd bod Gillian Davies wedi bwriadu annerch y Pwyllgor y diwrnod hwnnw ond nid oedd yn medru bod yn bresennol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau cynghorwyd y Pwyllgor, o dan y cynnig diwygiedig byddai yna 35 m o ffordd heb lwybr cerdded, ac mae'r man ar gyfer gosod y llwybr oedd ar hyd 15 o dai.

Roedd yr Aelodau o'r farn fod y datblygwr wedi siomi'r gymuned, ac roedden nhw o'r farn bod yna wersi i'w dysgu o'r cais hwn i sicrhau yn y dyfodol bod y seilwaith angenrheidiol yn cael ei ddarparu cyn adeiladu anheddau neu o leiaf cyn bod cyn gymaint wedi'u codi. Eglurodd y swyddog y gallai camau gorfodaeth ddim ond eu cymryd pe bai yna dystiolaeth gan yr Awdurdod Priffyrdd bod yna berygl i ddiogelwch priffordd, ond doedden nhw ddim yn ystyried y byddai unrhyw berygl o'r fath yn y cyswllt hwn.

Teimlai'r Aelodau eu bod wedi'u rhoi mewn sefyllfa anodd oherwydd safbwynt yr Awdurdod Priffyrdd. Cafodd cynnig i gymeradwyo'r amrywiad, yn amodol ar gadw at yr amodau oedd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad, ond gyda diwygiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwaith ddechrau o fewn tri mis o ddyddiad y cyfarfod, ei roi gerbron a'i eilio, a chafodd ei gario.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais gydag amodau yn ymwneud ag amseru'r datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, darparu llwybr troed, heol ystâd, parcio a throi, Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu, oriau gwaith a strategaeth lliniaru golau.**

(e) CYFEIRNOD: NP/22/0085/FUL
YMGEISYDD: Mr a Mrs M Adams
CYNNIG: Lle byw ychwanegol ar gyfer y prif dŷ
LLEOLIAD: Tŷ'r Ardd, Trewyddel, Aberteifi, Sir Benfro, SA43 3BH

Adroddwyd bod Tŷ'r Ardd wedi'i leoli mewn ardal wledig, tu fas i anheddiad Trewyddel. Roedd y tŷ dim ond i'w weld ar y ffordd i mewn i Drewyddel a doedd hi ddim yn bosib ei weld o unman yn agos am fod coed yn amgylchynu'r eiddo. Roedd y datblygiad arfaethedig yn cynnwys codi'r to ddwy fetr uwchben y garej bresennol i ddarparu llety byw ychwanegol yn cynnwys dwy ystafell wely ac ystafell gawod. Roedd topograffi'r safle yn golygu bod y tŷ, a'r garej oedd ynghlwm ar lefelau gwahanol, gyda'r garej wedi'i lleoli ar dir uwch na'r brif annedd breswyl, ac felly fe'u gwelir fel dau adeilad ar wahân er eu bod wedi'u cysylltu. Roedd y garej ar hyn o bryd yn cael ei defnyddio fel stiwdio gelf a sgubor.

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor am fod y gwrthwynebiad oddi wrth Gyngor Cymuned Nanhyfer yn groes i argymhelliad y swyddog.

Nodwyd bod yr eiddo mewn lleoliad diarffordd mewn safle atyniadol ond, fodd bynnag, roedd y swyddogion o'r farn bod y cynllun arfaethedig yn dderbyniol yn nhermau graddfa, ffurf, defnydd a dylunio. Ni fyddai'r datblygiad yn effeithio'n annerbyniol andwyol ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol na mwynder eiddo gerllaw. Ni fyddai ecoleg na nodweddion tirwedd yn cael eu heffeithio'n andwyol gan y datblygiad. O'r herwydd roedd y cynnig yn cydymffurfio â pholisïau Cynllun Datblygu Lleol 2 a gellid ei gefnogi.

Yn y cyfarfod gofynnodd y swyddog am ddiwygio Amod 6 fel bo'r deunyddiau a ddefnyddir yn cael eu cytuno cyn y gwaith datblygu, gyda'r disgwyliad y byddai gwaith carreg yn cael ei ddefnyddio er mwyn bod yn fwy enciliol.

Cafodd yr argymhelliad i gymeradwyo'r cynllun ei gynnig a'i eilio ond, fodd bynnag, roedd rhai Aelodau yn dal yn bryderus ynghylch dyluniad y datblygiad, a hefyd ynghylch ei ddefnydd posib fel uned breswyl ar wahan, er yn derbyn bod yna amod yn delio â'r pryder hwnnw. Nodwyd hefyd bod yr eiddo yn fwy gweladwy nad oedd yn ymddangos ond ychydig oedd y mannau gweld hyn yn cynnig dim mwy na chipolwg mewn gwirionedd. Oherwydd pryderon y Cyngor Cymuned cynigiwyd diwygiad y dylai'r Pwyllgor ymweld â'r safle ond ni chafodd ei eilio.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais gydag amodau'n ymwneud ag amseru'r datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, preswylio yn atodol i'r brif annedd, hyrwyddo bioamrywiaeth, triniaeth wyneb a deunyddiau allanol.**

[Gan ei fod wedi datgan buddiant rhagfarnus gadawodd y Cynghorydd Thomas y cyfarfod tra ystyrid y cais canlynol. Cyflwynodd Dr R Heath-Davies ei hymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth o'r cais.]

(f) CYFEIRNOD: NP/22/0104/FUL
YMGEISYDD: Mr A Trollope Bellew
CYNNIG: Newidiadau ac estyniadau i'r dafarn gan gynnwys darparu 3 uned gwely a brecwast, newidiadau mewnol i'r llety rheolwr ar y llawr cyntaf ac addasu'r storfa allanol bresennol yn weithdy cynnal a chadw beiciau
LLEOLIAD: Bragdy Milton, Milton, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro, SA70 8PH

Adroddwyd bod yr eiddo yn gorwedd oddi fewn i ffiniau Canolfan Wledig Milton fel y'i diffinnir yng Nghynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl2) a hefyd oddi fewn parth llifogydd C2 fel sydd wedi'i ddangos ar fapiau Cyngor Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Cafodd Asesiad Canlyniadau Llifogydd ei gyflwyno fel rhan o'r cais yn cydnabod bod y safle o dan sylw yn cael ei ystyried yn agored i lifogydd llanw, yn amrywio o berygl cymedrol i uchel, a pherygl isel i gymhedrol o lifogydd afonol. Amlinellwyd rhai ffactorau lliniarol yn cynnwys mesurau dylunio yn delio â rhan o ddatblygiad y llawr gwaelod, a sicrhau y byddai rheolwr y safle yn llwyr ymwybodol o'r perygl llifogydd, ac yn barod pe bai llifogydd yn digwydd trwy gofrestru ar gyfer Rhybuddion Llifogydd CNC a pharatoi Cynllun Llifogydd Busnes.

Roedd CNC wedi adolygu'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd ac roedden nhw wedi'u bodloni bod y peryglon a chanlyniadau llifogydd yn yr eiddo hwn yn bosib eu rheoli i lefel dderbyniol. Ond yn unol â TAN 15, ni ddylai defnydd hynod fregus, yn cynnwys llety gwyliau, gael eu hystyried mewn parth llifogydd C2. Tra bo defnydd preswyl eisoes o'r llawr cyntaf o ran llety rheolwr, roedd y cynnig yn gofyn am gynyddu'r llety ar y safle yn sylweddol trwy ddarparu tair uned gwely a brecwast. Yn ychwanegol, roedd y parth llifogydd yn ymestyn oddi amgylch yr eiddo a hynny'n cael effaith ar y dull tebygol o ddianc neu fynediad i wasanaethau brys pe bai yna lifogydd. O'r herwydd, roedd y cynnig yn groes i TAN 15 a Pholisi 34.

Wrth droi at ddyluniad arfaethedig yr estyniad cefn ystyriai'r swyddogion, o ganlyniad i'r dyluniad modern yn cynnwys darnau helaeth o wydr, y byddai'r cynigion yn effeithio'n andwyol ar leoliad Pont Milton, a oedd yn adeilad rhestredig ac felly yn rhan o nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, ac ni fyddai'n adlewyrchu cymeriad y dafarn bresennol. Ond yn y cyfarfod, cynghorodd y swyddog, ers ysgrifennu'r adroddiad, roedd cynlluniau diwygiedig wedi dod i law oedd yn darparu trychiadau wyneb carreg ar y llawr gwaelod, yn lleihau'r gwydro ar y llawr cyntaf, ac roedd yn bosib cefnogi'r dyluniad nawr. Ond roedd yr argymhelliad o wrthod yn dal yn ei le ond dim ond oherwydd un rheswm nawr - defnydd hynod fregus mewn parth llifogydd C2 - yn hytrach na dau.

Roedd yna un siaradwr ynglŷn â'r cais, Kathryn Perkins, asiant Ystâd Castell Caeriw sef yr ymgeisydd. Esboniodd bod yr ystâd wedi datblygu cynllun tebyg yn Nhafarn Caeriw gerllaw ac felly roedd gan yr Ystâd gofnod llwyddiannus yn y maes hwn. Cydnabu bod un o'r rhesymau dros wrthod wedi'i ddiddymu o ganlyniad i gyflwyno dyluniad amgen ond bod y rheswm arall sef llifogydd yn dal mewn lle. Nododd bod y cynnig yn cydymffurfio â Pholisi 43 o'r CDLl2 ynghylch safleoedd Cyflogaeth gan nodi bod y tŷ tafarn yn rhan bwysig o'r gymuned. Ystyriai hefyd bod y datblygiad yn cydymffurfio â'r meini prawf o ran cefnogi bwriadau cyflogaeth a'i leoliad ar dir oedd wedi'i ddatblygu cynt fel oedd wedi'i nodi yn TAN 15. Roedd yr asesiad perygl llifogydd wedi nodi na fyddai'r ailddatblygiad yn cynyddu'r perygl o lifogydd, ac y byddai ôl-troed yr adeilad yn cael ei leihau 10m$^2$ ac ni fyddai unrhyw ddŵr yn cael ei ail-gyfeirio i unrhyw le arall. Roedd y lletyau gwely a brecwast newydd ar y llawr cyntaf, a oedd uwchben yr holl lefelau llifogydd a ragwelwyd, a hynny nawr ac yn y dyfodol, ac roedd llety rheolwr eisoes ar y llawr cyntaf. Cyfeiriodd Ms Perkins at y ffaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau eu bod wedi'u bodloni y byddai peryglon a chanlyniadau llifogydd yn y datblygiad yn bosib eu rheoli i lefel dderbyniol, ac y gallai rhybudd llifogydd a chynllun rheoli gael eu gweithredu ynghyd â threfniadau ar y llawr gwaelod i wrthsefyll hyn megis gatiau llifogydd; nodwyd bod natur y llifogydd fan hyn yn ymwneud â'r llanw ac felly yn bosib eu rhagweld. Wrth gloi dywedodd ei bod o'r farn bod rhinwedd yn perthyn i'r cais am ei fod yn rhoi bywyd newydd i adeilad yr oedd angen hynny arno yn ogystal â darparu gwydnwch i'r busnes trwy ffynonellau incwm ychwanegol ac felly'n cynyddu cyflogaeth. Byddai cost y gwaith adfer yn cael ei dalu trwy fuddsoddi preifat, ac roedd y datblygiad yn unol â nifer o bolisïau cynllunio pwysig, ac yn cefnogi trafnidiaeth gynaliadwy trwy ddatblygu gweithdy beiciau yn agos at lwybr seiclo. Credai y gellid rheoli'r perygl llifogydd trwy gynllun rheoli llifogydd. Nodwyd bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cais ac roedd yn croesawu cyfarfod safle pe bai gan yr Aelodau bryderon.

Nododd yr Aelodau nad oedd gan CNC wrthwynebiad i'r datblygiad ac eglurodd y Cyfarwyddwr nad oedden nhw'n cynnig sylwadau ynghylch polisi, gan fod mater polisi wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn gwbl glir na ddylai defnydd hynod o fregus gael ei leoli mewn parth llifogydd oherwydd y perygl i fywyd a'r gwasanaethau brys. Nodwyd hefyd nad oedd cyfeiriadau at lifogydd yn y gorffennol na'r dyfodol yn cael eu hystyried yn berthnasol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr pe bai ym meddwl yr Aelodau i gymeradwyo'r cais y byddai'n cyflwyno protocol Oedi'r Awdurdod am y byddai'n groes i sefyllfa polisi cryf. Nododd hefyd pan gaiff TAN 15 ei adnewyddu yn 2023 bydd penderfyniadau tebyg i hwn yn cael ei gymryd oddi ar awdurdodau cynllunio a'u penderfynu gan Lywodraeth Cymru.

O ystyried y sefyllfa o ran polisi roedd yr Aelodau o'r farn mewn achosion lle'r oedd ymgeisydd yn barod i gymryd risg ariannol sylweddol i wella adeilad, fe ddylid rhoi cefnogaeth yn hynny o beth. Roedden nhw hefyd o'r farn ei bod yn anghyson i ganiatáu defnydd o arian cyhoeddus wrth adfer safle oddi fewn i barth llifogydd tra nad oedd ailddatblygu tafarn yn cael ei ganiatáu, hyd yn oed er ei fod yn hynod bwysig mewn cymuned wledig. Rhoddwyd cynnig gerbron i gymeradwyo'r cais am resymau economaidd ac fe'i heiliwyd ac ychwanegwyd ail reswm sef buddiant i'r gymuned.

**PENDERFYNIAD: Roedd ym meddwl y Pwyllgor i gymeradwyo'r cais.**

Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Cyfarwyddwr taw o dan y Weithdrefn Oedi, byddai'r cais yn cael ei ail-ystyried yn y cyfarfod nesaf, pan fyddai'r adroddiad yn cynnwys rhestr o amodau ar gyfer yr Aelodau i ystyried cymeradwyo'r cais.

**8. Apeliadau**

Adroddodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu ar bedwar apêl (yn erbyn caniatâd cynllunio a roddwyd gan yr Awdurdod) a oedd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru, a manylodd ynghylch ble roedd pob un o'r ceisiadau wedi cyrraedd yn y broses apelio. Nodwyd nad oedd yr un penderfyniad wedi'i dderbyn ers y cyfarfod diwethaf.

**NODWYD.**

**9. Dymuniadau Da**

Am mai dyma gyfarfod olaf y Cyfarwyddwr, Nicola Gandy diolchodd y Cadeirydd iddi, ar ran y Pwyllgor, am ei phroffesiynoldeb a'i thrafod medrus o faterion Rheoli Datblygu ar ran yr Awdurdod, gan ddymuno yn dda iddi yn y dyfodol.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn) yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 7 Medi 2022

Nodwyd bod tudalen 15 o'r cofnodion yn dweud "nad oedd cyfeiriadau at lifogydd yn yr adeilad yn y gorffennol nac yn y dyfodol bellach yn cael eu hystyried yn berthnasol". Am fod llifogydd yn yr adeilad yn y dyfodol o gryn berthnasedd, gofynnwyd am ddileu "yn y dyfodol".